# Grŵp Cynghori Annibynnol Ieuenctid Gwent: Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr

Darllenwch y nodiadau yma'n ofalus cyn llenwi eich ffurflen gais.

## 1. Beth yw Grŵp Cynghori Annibynnol Ieuenctid Gwent (GCAI Gwent)?

Nod Grŵp Cynghori Annibynnol Ieuenctid Gwent (GCAI Gwent) yw datblygu perthynas rhwng Heddlu Gwent a phobl ifanc nad ydyn nhw'n cael eu cynrychioli / nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed mor aml gan yr heddlu. Nod y grŵp yma yw newid hynny. Trwy'r GCAI, byddwn yn sicrhau bod y bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan drosedd a phlismona yn gallu gweithredu fel ffrind beirniadol a seinfwrdd i Heddlu Gwent a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent (y Comisiynydd). Rydyn ni eisiau clywed eich lleisiau chi ac eisiau clywed beth sy'n bwysig i chi, er mwyn i chi allu ymddiried ynom ni a bod yn hyderus y byddwn yn eich trin chi gyda pharch ac yn eich cadw chi'n ddiogel, beth bynnag yw eich oedran, o ble bynnag rydych chi'n dod, a beth bynnag yw eich hunaniaeth.

## 2. Pwy sy'n gallu ymuno â GCAI Gwent?

Rydyn ni'n chwilio am bobl ifanc 14-25 oed o ardal Gwent. Mae'r rôl yn agored i unrhyw un yn y grŵp oedran yma sy'n byw yn ardal Gwent (y pum ardal awdurdod lleol Casnewydd, Sir Fynwy, Caerffili, Torfaen neu Blaenau Gwent).

Rydyn ni eisiau recriwtio hyd at 15 o bobl ifanc. Rydyn ni'n chwilio am bobl sy'n gallu gweithio’n dda mewn tîm ac sy'n fodlon cymryd rhan yn holl weithgareddau GCAI Gwent. Hefyd, rydyn ni'n awyddus iawn i sicrhau bod GCAI Gwent yn cynnwys grŵp amrywiol o bobl ifanc sy'n adlewyrchu'r boblogaeth leol, gan gynnwys rhai sydd â phrofiad personol uniongyrchol o'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol.

Does dim angen unrhyw fetio ffurfiol na gwiriadau cefndir ar gyfer cyfranogwyr, gan ein bod yn rheoli hyn yn fewnol. Fodd bynnag, mae'r holl staff perthnasol wedi cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn sicrhau amgylchedd diogel a chefnogol.

## 3. Os ydw i'n ymuno, beth fydd rhaid i mi ei wneud?

Rhwng mis Medi 2025 a mis Mehefin 2026, dyma fydd aelodau GCAI Gwent yn ei wneud:

A) **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd GCAI:** Byddwch yn cymryd rhan mewn pump cyfarfod GCAI Gwent (Hydref, Tachwedd/Rhagfyr, Ionawr, Chwefror/Mawrth, Ebrill/Mai). Yn y digwyddiadau hyn bydd aelodau GCAI Gwent yn dod at ei gilydd i drafod a nodi amcanion ar gyfer y prosiect. Yn y cyfarfodydd yma, byddwch yn datblygu sgiliau ac yn meddwl am syniadau creadigol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu. Byddwch yn adolygu ac yn myfyrio ar eich datblygiad hefyd.

B) **Gweithio gyda Heddlu Gwent ar bynciau penodol:** Byddwch yn dewis pwnc sydd o ddiddordeb i chi er mwyn gweithio arno gyda grŵp bach o aelodau eraill. Gall hyn gynnwys pynciau fel: Stopio a chwilio, troseddau casineb, ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais domestig, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddau cyllyll, trais yn erbyn menywod a merched, a datblygu ymddiriedaeth a hyder gyda'r heddlu.

C) **Casglu barn pobl ifanc eraill:** Dros gyfnod y gweithgareddau ymgysylltu, byddwch yn cael cymorth i gynnal ymchwil gyda phobl ifanc eraill yn y gymuned (dysgu beth mae pobl eraill eich oed chi yn meddwl am y problemau rydych chi'n canolbwyntio arnyn nhw). Bydd y gweithgareddau yma'n cael eu hysgogi gan feysydd diddordeb yr aelodau a thrafodaethau yng nghyfarfodydd GCAI.

D) **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd myfyrio**: Byddwch yn cymryd rhan mewn un cyfarfod myfyrio terfynol ble byddwch chi ac aelodau GCAI Gwent, y Comisiynydd, a'r heddlu yn dod at eich gilydd ac yn myfyrio ar eich siwrneiau personol. Byddwch yn rhannu materion a gafodd sylw yng nghyfarfodydd GCAI, yr hyn a ddysgwyd a'r prif gamau gweithredu.

E) **Datblygu blog, erthyglau a chynnwys cyfryngau cymdeithasol:** Bydd aelodau GCAI yn cynhyrchu cynnwys sy'n rhoi

cyfle i chi siarad am eich profiadau ac a fydd yn cael ei rannu gan Leaders Unlocked a Heddlu Gwent.

## 4. Beth fyddai'n ei gael o fod yn aelod o GCAI Gwent?

A) **Trafod materion gyda Heddlu Gwent a'r Comisiynydd:** Byddwch yn gweithio gyda Heddlu Gwent, yn eu helpu nhw i ddeall beth mae pobl ifanc yn eich ardal chi'n meddwl am yr heddlu a throsedd a sut gallan nhw wneud newidiadau er mwyn eich cynrychioli chi'n well, eich cadw chi'n ddiogel ac ennill eich ymddiriedaeth.

B) **Datblygu eich sgiliau a'ch profiad:** Byddwch yn ennill sgiliau, hyder a phrofiad gwerthfawr, y byddwch yn gallu eu cynnwys ar eich CV neu wrth wneud cais i addysg bellach neu addysg uwch.

C) **Bod yn llysgenhadon i bobl ifanc eraill:** Byddwch yn rhoi llais i bobl ifanc yn eich ardal chi drwy helpu i sicrhau bod eu safbwyntiau nhw'n cael eu clywed.

D) **Cwrdd â phobl newydd:** Byddwch yn cwrdd â grŵp amrywiol o bobl ifanc eraill o ardal blismona Gwent, ac yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol o wahanol sefydliadau.

E) Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gyrfa yn y maes plismona, gwaith cymdeithasol neu gyfiawnder troseddol, **mae hwn yn fan cychwyn ardderchog**!

## 5. Llenwi'r ffurflen gais

Llenwch y ffurflen gais amgaeedig ac e-bostiwch hi at: Kaytea@leaders-unlocked.org erbyn **dydd Gwener 26 Medi 2025**

1. Adran 1: Os ydych chi o dan 18 oed rhaid i chi lenwi'r adran ynglŷn â'ch Rhiant / Gwarcheidwad / Gofalwr hefyd. Bydd angen iddyn nhw lenwi a llofnodi Ffurflen Cydsyniad hefyd i roi caniatâd i chi gymryd rhan.

2. Preifatrwydd: Mae eich preifatrwydd yn bwysig iawn i ni. Trwy lenwi’r ffurflen gais Grŵp Cynghori Annibynnol Ieuenctid Gwent, rydych yn caniatáu i Leaders Unlocked ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol i gadw mewn cysylltiad â chi dros gyfnod y prosiect. Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, neu os ydych chi'n penderfynu tynnu eich cais yn ôl, byddwn yn dileu eich data personol o'n ffeiliau.

Os ydych chi eisiau tynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, gallwch gysylltu â'r swyddog Diogelu Data - info@leaders-unlocked.org ac os ydych chi eisiau gweld ein Hysbysiad Preifatrwydd llawn gallwch wneud hynny yma https://leaders-unlocked.org/luwp/wp-content/uploads/2024/12/Leaders-Unlocked-Privacy-Notice-2024.pdf

## 6. Beth sy'n digwydd nesaf?

Pan fyddwn ni wedi derbyn eich cais, byddwn yn cynnal cyfweliadau byr ar y ffôn / Teams / Zoom gyda rhestr fer o ymgeiswyr. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod erbyn 3 Hydref fan bellaf.

Cofiwch: Anfonwch eich ffurflen gais ar e-bost at: Kaytea@leaders-unlocked.org erbyn **dydd Gwener 26 Medi 2025**